

Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd

Amcanion

Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd yn anelu at alluogi myfyrwyr a graddedigion y Prifysgol i wneud penderfyniadau gwybodus am eu dewisiadau gyrfaol, i gymryd camau i wireddu eu hamcanion, ac i ddatblygu'r gallu i reoli eu gyrfaoedd trwy gydol eu bywydau mewn gwaith. Ein gweledigaeth ni yw sicrhau bod holl fyfyrwyr Prifysgol Bangor yn cymryd rhan yn llawn yn eu chwiliadau gyrfaol, er mwyn gwella eu profiad fel myfyrwyr; eu cynorthwyo i ddeall perthnasedd eu haddysg i'w datblygiad gyrfaol, a'u galluogi i wireddu eu hamcanion gyrfaol a chyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas. Datblygu parodrwydd i gymryd yr awenau yn eu swyddi a'u cymunedau, a chael cyfle i ddatblygu a gwella eu medrau arweinyddiaeth, cynhyrchu graddedigion y mae galw am eu medrau a'u gwybodaeth yn y marchnadoedd swyddi cenedlaethol a rhyngwladol.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i ddatblygu a meithrin cysylltiadau cryf a chynaliadwy â chyflogwyr cenedlaethol a rhanbarthol ac asiantaethau'n gysylltiedig â busnesau. Rydym wedi sicrhau bod ein gwasanaethau i'r gymuned fusnes yn darparu cefnogaeth i'r amrywiaeth ehangaf o ofynion, o ddiwallu anghenion recriwtio recriwtwyr graddedigion yn genedlaethol hyd at gynorthwyo Mentrau Bychain a Chanolig micro i dyfu a ffynnu drwy leoliadau project â chymhorthdal. Rydym yn cydnabod bod pob cyflogwr yn cael budd o allu cael mynediad at fyfyrwyr a graddedigion medrus iawn a chydag ymwybyddiaeth o fusnes, ac wedi datblygu amrywiaeth o raglenni datblygu sgiliau sy'n gweithio i ymdrin â'r mater hanfodol hwn.

Bwriadau

- Darparu arweiniad gyrfaol cyfrinachol a diduedd i unigolion, trwy apwyntiad gyda chynghorwr gyrfaoedd.
- Cynnal rhaglen ganolog o ddysgu datblygiad gyrfaol, a hynny trwy weithdai a sesiynau cyfarwyddo ar raglenni rheoli gyrfa (yn cynnwys menter a hunan-gyflogaeth).
- Cefnogi strategaethau economaidd cenedlaethol a rhanbarthol, gan ddatblygu a rheoli entrepreneuriaeth a menter gan fyfyrwyr.
- Cynnal gweithdai cynllunio gyrfa yn yr holl adrannau academaidd o leiaf unwaith y flwyddyn.

Er mwyn hwyluso'r broses hon, ac i gefnogi'r Brifysgol wrth iddi ddatblygu cynlluniau ei hisraddedigion a'i hôl-raddedigion o ran cyflogadwyedd a datblygiad personol, gallant ddisgwyl darpariaeth o'r canlynol:

- Bod deunyddiau profi Seicometrig ar gael.
- Cynnal gweithgareddau a rhaglenni dysgu ar ddatblygiad gyrfaal mewn adrannau academaidd (trwy gyd-drafodaeth), ac i alumni sydd wedi graddio yn y tair blynedd ddiwethaf.
- Trwy Wobr Cyflogadwyedd Bangor, cyd-gysylltu'r agweddau cwricwlaidd, cyd-gwricwlaidd ac allgyrsiol ar eu profiad fel myfyrwyr, ac adfyfrio arnynt.
- Darparu rhaglen ddysgu gyfunol a chraidd o gynllunio datblygiad personol a gweithgareddau rheoli gyrfaa.
- Galluogi myfyrwyr i nodi eu sgiliau trosglwyddadwy a'u nodweddion personol a'u mynegi wrth ddarpar-gyflogwyr.
- Darparu gwefan helaeth sy'n rhoi manylion am gyfleoedd o ran galwedigaethau, cyrsiau a swyddi, astudiaeth ôl-radd, ffynonellau cyllid, yn cynnwys cyflogwyr ac asiantaethau, a chysylltiadau â gwefannau cymeradwy eraill.
- Darparu lleoliadau gwaith, â thâl a heb dâl, i israddedigion a graddedigion trwy Raglen Lleoliadau Gwaith GoWales a'r Rhaglen Blasu Gwaith.
- Galluogi myfyrwyr i ddatblygu sgiliau menter a dod yn fwy ymwybodol o hunan-gyflogaeth trwy ein rhaglen Byddwch Fentrus (B-Enterprising)
- Gweithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol er mwyn rhoi cymorth a chyfleoedd i fyfyrwyr ddatblygu eu medrau menter ac entrepreneuriaeth.
- Mynediad at wefannau perthnasol a gwybodaeth ar-lein, ar ffurf data, am gynlluniau cwmnïau rhyngwladol a chwmnïau bach o ran recriwtio.
- Rhoi manylion am swyddi gweigion, profiad gwaith, interniaethau a manylion am leoliadau gwaith yng nghyswllt cyfleoedd gyda chyflogwyr a darparwyr eraill.
- Mynediad ar y campws at lawer o fathau o ddarparwyr cyflogaeth trwy ffeiriau swyddi, swyddi gweigion ar-lein, yn ogystal â rhaglenni o gyflwyniadau gan gyflogwyr trwy gydol y flwyddyn.

[Chris Little](#)

Pennaeth Gwasanaeth Gyfaoedd a Chyflogadwyedd